# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 2

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

## PENNOD 3

GWEITHREDU CWRICWLWM

*Ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir*

### 29 Gofynion gweithredu pellach ar gyfer disgyblion 3 i 14 oed

(1) Rhaid gweithredu'r cwricwlwm mabwysiedig yn unol ag is-adran (2) i ddisgyblion nad ydynt eto wedi cwblhau'r flwyddyn ysgol y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn eu dosbarth yn cyrraedd 14 oed ynddi.

(2) Rhaid gweithredu'r cwricwlwm mabwysiedig mewn ffordd sy'n sicrhau addysgu a dysgu i bob disgybl—

(a) sy'n cwmpasu'r meysydd dysgu a phrofiad (gan gynnwys yr elfennau mandadol o fewn y meysydd hynny), a

(b) sy'n datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol.

(3) Rhaid i'r addysgu a dysgu a sicrheir o dan is-adran (2)—

(a) mewn cysylltiad ag elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, fod yn addas ar gyfer cyfnod datblygu'r disgybl, a

(b) mewn cysylltiad ag elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gyd-fynd â Rhan 2 o Atodlen 1, ac eithrio pan fo is-adran (4) yn gymwys.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 29 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(4) Mae'r is-adran hon yn gymwys pan fo'r addysgu a dysgu i ddisgyblion mewn dosbarth y mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ynddo yn iau na'r oedran ysgol gorfodol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 29 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I2** A. 29 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(b), **Atod.**

**I3** A. 29 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(b)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 29 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 09 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- s. 29 coming into force by S.I. 2022/652 art. 7(b)
- s. 29 coming into force by S.I. 2022/652 art. 8(a)
- s. 29 coming into force by S.I. 2022/652 art. 9(a)